

Diweddariad Technegol – Sefydlu Cnwd Indrawn

Gwybodaeth yn gywir am 16:00pm ar 09.04.2020

- Bydd gwella'r gwely hadau yn helpu planhigion i egino'n well
- Archwiliwch dymereddau pridd yn rheolaidd
- Mae hau yn fanwl gywir yn allweddol i sicrhau y gwnaiff planhigion egino'n wastad ac i sicrhau'r pwysau cnwd mwyaf
- Cofiwch reoli chwyn yn dda yn gynnar yn y tymor a darparu cyflenwad priodol o faetholion

Paratoi Gwely Hadau

Bydd cynhyrchu gwely hadau da yn dilyn y tywydd eleni yn heriol i lawer, ond yn ffodus, nid yw'n rhy hwyr i liniaru'r problemau gwaethaf.

Mae'r pridd yn wlyb iawn, felly ni ddylid aredig yr is-bridd heb archwilio'r caeau yn gyntaf. Os gallwch chi rholi pridd o'r dyfnder rydych chi'n bwriadu ei drin yn bêl, mae'n rhy wlyb. Bydd angen i wahanol briddoedd gael eu rheoli'n wahanol, ond dylid ceisio creu'r gwely hadau gorau posibl gan leihau nifer symudiadau peiriannau dros y tir i atal rhagor o gywasgu.

Dyddiad Hau – 7/8/9

Yn anochel, bydd priddoedd yn oerach nag arfer eleni, ac efallai bydd arnynt angen mwy o amser i gynhesu oherwydd y glawiad sylweddol. Mae mesur tymheredd y pridd yn hanfodol felly cofiwch y rheol 7/8/9 – cyfnod o 7 diwrnod â thymheredd o 8oC am 9yb yn y dyfnder hau rydych chi wedi'i ddewis. Bydd hau ddiwrnod yn hwyr yn y gwanwyn yn golygu cynaeafu ddau ddiwrnod yn hwyrach yn yr hydref. Fodd bynnag, peidiwch â hau indrawn cyn Ebrill 15 i leihau'r perygl o ddifrod gan farrug.

Cryfder a Dyfnder Hau

Mae egino cyson yn allweddol bwysig i sicrhau cnwd indrawn da. Mae gwaith a wnaed yn Ffrainc wedi profi mai cystadleuydd pennaf planhigyn indrawn yw ei gymydog agosaf. Dylai pob planhigyn egino ar yr un pryd i leihau cystadlu rhwng planhigion. Gall yr enghreifftiau gwaethaf o egino anghyson achosi colledion o hyd at 40%. Yn achos gwelyau hadau salach, bydd angen i'r heuwr fynd yn arafach i sicrhau dyfnder hau unffurf. Sicrhewch fod defnyddiwr yr heuwr yn gwneud ei waith yn dda.

Cyfradd Hadau a Lled Rhesi

Yn gyffredinol, bydd cyfradd hadau uwch a rhesi sy'n agosach at ei gilydd yn golygu pwysau cnwd uwch, ond gall y cynnydd hwn ym mhwysau'r cnwd ddigwydd ar draul canran y startsh. Wrth i nifer y planhigion fesul hectar gynyddu, bydd maint y cobyn yn lleihau.

Ai pwysau'r cnwd neu ynteu ganran y startsh yw eich nod? I sicrhau pwysau, culhewch led y rhes i 50cm a chynyddwch y gyfradd hadau i 110,000/ha. I sicrhau ansawdd y cnwd, defnyddiwch resi 75cm o led a chyfradd o 90,000 o hadau fesul hectar i sefydlu 100,000 neu 80,000 planhigyn yr hectar yn y drefn honno.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Dyfnder Hau a Thriniaethau

Bydd y dyfnder hau yn dibynnu ar y defnydd o driniaethau (neu beidio) ac os defnyddir hwy, y math a ddefnyddir. Os na ddefnyddir triniaeth i ymlid adar, dylech hau ar ddyfnder o 7cm o leiaf i sicrhau na all ydfrafrain dyrchu'r hadau i'r wyneb. Os defnyddir triniaeth, gellir hau'r hadau ar y dyfnder arferol (5cm) neu yn rhan laith y pridd os bydd y gwely hadau yn sychu.

Darllenwch a chadwch at y cyfarwyddiadau a gewch chi gan eich cyflenwr hadau wrth chwalu triniaethau, oherwydd ni ddylid anadlu'r llwch.

I gael cyngor ynghylch y gofynion o ran gwartaith, cysylltwch ag ymgynghorydd sydd â chymwysterau FACTS neu defnyddiwch ragfynegydd nitrogen MGA. Trafodwch â'ch agronomegydd i sicrhau na fydd unrhyw chwyn yn ystod y chwe wythnos gyntaf. Yn gyffredinol, ni ellir cyflawni hyn heb chwalu ddwywaith: cyn egino i gychwyn rheoli chwyn, ac wedi egino, i amddiffyn rhag chwyn trwy gydol y tymor.

Paratowyd gan Kite Consulting

Diolch i Gymdeithas y Tyfwyr Indrawn am eu cymorth i lunio'r nodyn hwn



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813